**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWYD YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 7.7.26**

**7.1 YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Jennifer Yuill (Is-Gadeirydd), Nia Rees, Beth Bailey, Deilwen Anderson, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, William Hooban.

**7.2 PRESENNOL**
Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Edward Williams, John Ceri Evans, Sian Edwards, Evan Owen.

**7.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**
Nid oedd gan y Cadeirydd unrhyw gyhoeddiadau i'w gwneud.

**7.4 COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mehefin 2il 2026 fel rhai cywir.

**7.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**7.6 DATGAN BUDDIANT**
Datganodd y Cyng. Edward Griffiths ddiddordeb yng nghais cynllunio Llecheiddior Isaf, Talybont ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personnol ganddo a nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y cais.

**7.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**
Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Yn cyfarfod Ardal Meirionnydd, roedd galwadau i bwyllgor Tenantiaethau Amaethyddol lleol gael ei adsefydlu ar gyfer man ddaliadau Gwynedd. Mynegwyd pryderon bod eiddo wedi dirywio dros y blynyddoedd a bod nhw nawr yn ddrud i'w trwsio a'u uwchraddio. Nid oedd llawer o denantiaid yn byw ar y ffermydd man ddaliadau mwyach, ond yn gweithio'r tir yn unig. Am flynyddoedd lawer iawn, roedd y tenantiaethau wedi eu gweinyddu gan y Cabinet ac roedd pob Cynghorydd eisiau i'r Gweinyddu ddychwelyd i bwyllgor lleol, wedi'i wneud o aelodau a oedd â man ddaliadau yn eu Wardiau. Roedd adroddiad ar lifogydd, ac mae cynlluniau i wneud gwaith mewn sawl ardal, ond dim cynlluniau ar gyfer yr ardal hon. Mae adroddiad llawn ar dai wedi'i wneud ag ar gael, ond mae problemau gyda thai sydd wedi bod yn wag am gyfnodau hir, ac nad ydynt yn talu unrhyw Dreth Cyngor. Ni fydd y Gwerthwr Sir yn rhoi rhestr o eiddo o'r fath i'r Adran Dai sy'n delio â thai gwag. Mae'r Prif Weithredwr wedi penodi Catrin Thomas i ymchwilio. Y cam nesaf yw bod Trysorydd y Cyngor i gysylltu â Chyfreithiwr y Sir. Mae hyn yn arafu gwaith y timau Tai Gwag. Mae pryderon ynghylch cartref gofal arbennig yn Felin Heli, lle 'roedd plant oedd dan ofal Gwynedd yn cael eu cam-drin. Mae sawl un o'r plant wedi derbyn iawndal, cafodd dau o aelodau'r staff eu hatal ar gyflog llawn am 9 mlynedd, ac mae eu cyfreithiwr yn galw am ymchwiliad llawn. Mae'r mater hwn i'w godi ddydd Iau 2il. Mae problemau â llif traffig trwy Abermaw, ac mae'r Cyng. Wendy Cleaver a Delyth Griffith wedi cwrdd â Pennaeth y Gwasanaethau Steffan Jones, sydd wedi cytuno i ymchwilio. Roedd busnesau yn y Dyffryn a Thalybont yn dweud wrth eu cwsmeriaid i deithio drwy Harlech, ond mae hyn yn achosi problemau yn Llanbedr. Dywedodd Cath Davey, Pennaeth yr ysgol yn y pentref, bod pawb wedi cydweithio'n dda gyda'i gilydd yn ystod y tywydd poeth diweddar gan gynnwys y plant, y rhieni, staff yr ysgol ac fe ddywedodd hi ei bod hi'n braf gweld pawb yn gweithio gyda'i gilydd. Cafodd prif bibell ddŵr a oedd wedi torri ei thracio i dir ger y gwaith carthffosiaeth, ac er bod sawl eiddo heb ddŵr yn y bore, cwblhaodd y gweithwyr y gwaith cyn gynted ag y gallent. Mae difrod i bont Talybont yn cael ei ymchwilio. Mae y gwaith carthffosiaeth a oedd a chynlluniau i darmacio y llwybr march o'r gorllewin i Cadwgan ddim yn mynd i'w wneud tan fis Medi. Rwyf wedi gofyn i Eryri a'r Priffyrdd sicrhau diogelwch y cyhoedd wrth ddefnyddio'r llwybr hwn i'r traeth. Rwyf ar gael ar 01341 242 758

**7.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Amrywio Amodau 1 (Cynlluniau cymeradwy) a 3 (Wyneb llefydd parcio gan gynnwys parcio cerbydau brys) sydd ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP5/58/505C dyddiedig 14/10/2025 Llecheiddior Isaf, Talybont. (NP5/58/505E)**

Cefnogoi y cais hwn.

**7.9 MATERION YN CODI**

**A Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £13,146.50 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £12,045.50 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

**B Cae Peldroed**

Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod. Cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Prif Weithredwr ADRA.

**C Cais Grant Gwynedd Ni**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cael gwybod bod y Cyngor wedi bod yn llwyddianus gyda'r cais grant i gario allan y gwaith oedd wedi ei restru yn y cais. Cytunwyd bod y Clerc ar Cadeirydd yn llofnodi y llythyr derbyn a'i anfon yn nol.

**D Camerau CCTV**

Nid oedd diweddariad ar gael ynglyn ar mater uchod.

**7.10 GOHEBIAETH**

**A Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn cais am Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft gan tim Polisi Cynllunio yr uchod ag yn gofyn am gymorth y Cyngor i adolygu proffiliau anheddiadau sydd wedi'u paratoi ar gyfer anheddiadau o fewn ein Cyngor Cymuned. Hefyd yn datgan bod y proffiliau anheddiadau'n dod â gwybodaeth allweddol at ei gilydd am bob anheddiad. Maent yn un o'r camau cyntaf o gasglu tystiolaeth a fydd yn helpu i lywio asesiadau anheddiadau yn y dyfodol a'r strategaeth ofodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn datgan byddai y Cyngor Cymuned yn gweld y proffiliau anheddiadau sy'n berthnasol I'r ardal hon a mae rhain ar ffurf drafft cyntaf, a byddant yn ddiolchgar iawn os fyddai y Cyngor Cymuned yn gallu cyfrannu atynt er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a lleisiau rhanddeiliaid lleol yn cael eu cynnwys.

Yr hyn mae y tim Polisi Cynllunio yn gofyn I'r Cyngor Cymuned ei wneud yw y canlynol:-

Ar gyfer pob anheddiad sydd wedi'i gynnwys, gofynnwn i chi gwblhau'r tri cham canlynol:

1 **Adolygu'r proffil anheddiad**

Gwiriwch y proffil a nodwch unrhyw wybodaeth sy'n anghyflawn, yn anghywir, neu y gellid ei gwella.
Gellir cofnodi'r sylwadau hyn ar dudalen gyntaf yr holiadur.

2. **Cwblhau'r holiadur**

Cwblhewch un holiadur ar gyfer pob anheddiad. Rydym yn arbennig o awyddus i dderbyn eich barn ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) yr anheddiad. Gellir hefyd ddefnyddio'r holiadur i gyflwyno cywiriadau neu wybodaeth ychwanegol.

3. **Cwblhau'r ffurflen gwasanaethau a chy**

Rhestrwch yr holl wasanaethau a chyfleusterau lleol y dylid eu cynnwys yn y proffil anheddiad. Cofnodwch gymaint o fanylion â phosibl.

'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**B Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a dyddiadau hyfforddiant sydd ar gael i Aelodau rhwng mis Mehefin a mis Medi.
'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**C Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a cyfarfod pwyllgor Ardal Meirionnydd a fydd yn cael ei gynnal ar yr 15ed o'r mis hwndros zoom. Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**D Parc Cenedlaethol Eryri**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio – Gwybodaeth i Gynghorau Cymuned a Thref ag yn rhoid i trosolwg byr o Wasanaeth Cydymffurfiaeth yr Awdurdod ac i egluro sut mae materion cydymffurfiaeth yn cael eu trin. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen I bob Aelod yn barod

**7.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £47,942.85 yn y cyfrif rhedegol a £46,918.36 yn y cyfrif wrth gefn.

**Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mrs Annwen Hughes - £273.06 (cyflog) + £201.06 costau = £474.12
Evergreen - £850.00 - torri gwair y 3 fynwent x 2
Gary Martayn - £534.00 - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd
Mr. G. J. Williams - £233.90 - torri gwair o gwmpas amrywiol lefydd yn Talybont
Pwyllgor Neuadd Bentref - £20.00 – llogi ystafell bwyllgor (Ebrill)
Mr. M. J. Kerr - £100.00 – agor bedd y diweddar Mrs Beryl Parry (llwch)
Cyllid a Thollad - £204.60 - treth ar gyflog y Clerc
Archwiliad Cymru - £822.10 - archwiliad allanol 2024/25
LL DIY - £1,184.15 - carped newydd i'r ystafell chwaraeon y neuadd a paent

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Edward Griffiths a wnaeth y Cyng. John Ceri Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Gofynnodd y Trysorydd am ganiatad y Cyngor I wneud taliadau sydd I weld yn rhai brys yn ystod mis Awst oherwydd nid oes cyfarfod swyddogol o'r Cyngor tan mis Medi.

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

H. O. Davies - £971.00 – claddu y diweddar Mr. John Wynne
Mr. Steve Farrar - £327.00 - claddu y diweddar Mrs Beryl Parry (llwch) a gosod plac
Biri Traiding Ltd - £89.99 - ad-daliad am nwyddau ni dderbyniwyd
Cyllid a Thollad - £347.87 - ad-daliad TAW
Pritchard & Griffiths - £2.025.00 – claddu y diweddar Mrs Geinor Lavender

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – £159.20 - gwasanaeth cyfieithu

**7.12 UNRHYW FATER ARALL**

Cafwyd wybod bod cwynion wedi cael eu derbyn ynglyn a chyflwr y gwair oedd wedi cael ei dorri ar ystad Bryn Awelon a Penrhiw.
Cafwyd wybod bod y gylchfan yn y parc chwarae angen ei thrwsio.
Datganwyd siom ag 'roedd yr Aelodau oedd yn bresennol yn anghytuno bod rhai o bentrefi cyfagos yn erbyn y llythyr oedd Mr. David Young, Snowdonia Aerospace wedi ei anfon.

**ARWYDDWYD..............................................Cadeirydd**

**DYDDIAD...................................................................**